Newyddlen 2010

Gwanwyn

Croeso i Europe Direct

Gwasanaeth gwybodaeth sy'n ymdrin â phopeth sy'n ymwneud ag Ewrop. O fân ymholiadau ynghylch pa arian cyfredol sy'n cael ei ddefnyddio yng ngwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd (UE), hyd at wybodaeth fanwl am bolisïau'r UE, rydym yma i'ch cynorthwyo. Mae peth wmbredd o wybodaeth ar gael ichi, leawer ohoni ar ffurf llyfrynnau y gallwch fynd â hwy gyda chi. Gallwch gysylltu â ni mewn gwahanol ffyrdd: ffôn, e-bost, trwy'r we, neu beth am ddod draw i'n gweld ni. Mae ein manylion cysylltu i'w gweld ar dudalen olaf y newyddlen hon a'r peth gorau yw hyn - ni fyddwch yn talu ceiniog am ein gwasanaeth!

Cynnwys

Tudalen 1
Newyddion yn yr UE

Tudalen 2-3
Beth mae Europe Direct wedi bod yn ei wneud?

Tudalen 4-5
Yr adnoddau sydd ar gael ac sy'n cael eu hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd

Tudalen 6
Beth mae Europe Direct Wrecsam yn ei gynnig

Cadarnhau Cytuniad Lisboa

'O Blaid' meddai pleidleiswyr yn Iwerddon o'r diwedd, ar ôl i Lywodraeth y wlad honno gytuno i gynnal ail bleidlais ynghylch Cytuniad Lisboa. Yn y lle cyntaf cafodd Cytuniad Lisboa ei wrthod gan Lywodraeth Iwerddon.

Yn sgil hyn fe allai Gwlad Pwyl hithau, o'r diwedd, gwblhau'r cadarnhad ynghylch Cytuniad Lisboa. Fe gynhaliwyd seremoni yn Warsaw, lle bu arlywydd y wlad Lech Kaczynski yn arwyddo'r offeryn cadarnhau.

Nawr mae'r Weriniaeth Tsiec wedi cadarnhau Cytuniad Lisboa, mae'n barod i ddod i rym cyn belled â bod yr holl offerynnau cadarnhau wedi eu cyflwyno. Cafodd y cytuniad ei arwyddo, yn wreiddiol, gan Benaethiaid Gwladwriaeth neu Lywodraeth 27 o'r aelod–wladwriaethau yn Lisboa ar 13eg Medi 2007.

Bydd y cytuniad yn diffinio'r hyn y gall yr Undeb Ewropeaidd ei wneud a pheidio â'i wneud, a pha ddulliau y gall ef eu defnyddio i fynd i ddatrys materion. Mae Ewrop yn newid yn gyson ac mae tasgau anodd newydd iddi fynd i'r afael â hwy gydol yr amser, fel newid yn yr hinsawdd, globaleiddio a'r angen am ffynonellau ynni cynaliadwy. Ni all gwledydd yr Undeb Ewropeaidd ddelio â materion fel hyn ar eu pen eu hunain ond, yn sgil Cytuniad Lisboa, byddant nawr yn cydweithio'n agosach er mwyn trafod sut i ddatrys materion. Yn ei dro bydd hynny'n golygu bod yr UE yn sefydliad mwy democrataidd.

I gael rhagor o wybodaeth am Gytuniad Lisboa ewch i www.europa.eu

Dymchwel Mur Berlin
Coffáu ugain mlynedd

Am hanner nos ar Dachwedd 9fed 1989, cafwyd caniatâd swyddogol gan Lywodraethwyr Comiwnyddol Dwyrain yr Almaen ac fe agorwyd gatiau ar hyd Mur Berlin ar ôl i gannoedd o bobl dyrru at y croesfannau. Cafodd y mur ei adeiladu ym 1961 ar orchymyn Walter Ulbricht, cyn arweinydd Dwyrain yr Almaen, er mwyn atal pobl rhag dianc i Orllewin yr Almaen.

Yn sgil bylchu Mur Berlin fe chwalodd Dwyrain yr Almaen ac ar Ionawr 3ydd 1990 fe sefydlodd Dwyrain a Gorllewin yr Almaen wlad unedig newydd.

Er mwyn darllen yr erthygl i gyd, ewch i www.berlin-life.com/berlin/wall

Dydd Ieithoedd Ewrop 2009

Bob blwyddyn, ledled Ewrop, gyda sylw arbennig i'r 26ain o Fedi, anogir 800 miliwn o Ewropeaid a gynrychiolir yn y 27 o wladwriaethau sy'n aelodau, i ddysgu rhagor o ieithoedd, unrhyw oed, yn yr ysgol a thu allan. Gyda'r argyhoeddiad bod amrywiaeth ieithyddol yn fodd i'r diwylliannau ddod i ddeall ei gilydd, gan uno cymdogion yn Ewrop, mae Cyngor Ewrop yn hyrwyddo cyfoeth diwylliannol ac amlieithrwydd ledled Ewrop.

Y diwrnod hwn, trefnir amrywiaeth o ddigwyddiadau ledled Ewrop, yn cynnwys digwyddiadau i blant, rhaglenni teledu a radio, dosbarthiadau iaith a chynadleddau. Mae rhyddid i'r gwladwriaethau sy'n aelodau ac i rai a allai fod yn bartneriaid drefnu'r gweithgareddau.

I ddathlu'r diwrnod gwych hwn, cynhaliodd Europe Direct Wrecsam ddigwyddiad i ddathlu amrywiaeth Ieithoedd Ewrop yn Neuadd Goffa Wrecsam. Gwahoddwyd ysgolion o bob rhan o Wrecsam i ymuno â ni a darganfod ieithoedd trwy amrywiaeth o weithdai cyffrous a rhyngweithiol, trafodaeth a stondinau gwybodaeth. Daeth oddeutu 220 o ddisgyblion i gymryd rhan mewn amrywiaeth fawr o weithdai a gynhaliwyd gan CBAC, CILT Cymru, y stowyr Pauline Bennet a Clive Hopwood a Phrifysgol Glyndŵr. Oherwydd bod Cymraeg erbyn hyn wedi ennill statws ieithyddol cyd-swyddogol ar lefel Ewropeaidd, rhoddwyd lle amlwg i Gymraeg yn un o brif ieithoedd y digwyddiad yn ogystal â rhai o ieithoedd eraill Ewrop, yn cynnwys Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, Eidaleg a Phwyleg.

Wynebau newydd yn Europe Direct Wrecsam

Mae Europe Direct yn croesawu dau weithiwr newydd, ar ôl i'r Swyddog Gwybodaeth blaenorol, Stephanie, ffarwelio â ni er mwyn mynd i weithio ym Mrwsel. Roedd yn chwith gennym ei gweld yn mynd, o gofio'r holl waith caled y mae hi wedi'i wneud ar gyfer Europe Direct Wrecsam.

Fodd bynnag, mae Eleanor bellach wedi rhoi cychwyn ar y dasg o roi allgymorth a'r wybodaeth ddiweddaraf un i bobl am y materion pwysig mewn perthynas ag Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am Ewrop neu'r UE gallwch gysylltu ag Europe Direct yn y fan honno, naill ar y ffôn neu gydag e-bost.

Cysylltwch â ni ar 01978 292090

Neu anfonwch e-bost atom yn europedirect@wrexham.gov.uk

Gweithdai Ysgolion

Ar 14eg Hydref, cyflwynodd Europe Direct 3 gweithdy i fyfyrwyr o Safon Uwch yn Ysgol Maelor. Roedd y cyflwyniad wedi ei rannu'n 3 phrif faes, sef hanes yr Undeb Ewropeaidd, Y Senedd Ewropeaidd a'r modd y mae'r UE yn effeithio ar fywyd yr unigolyn yng Nghymru. Roedd gan bob maes ffilm fer, yna cwis. Roedd y cwisiau yn llwyddiannus iawn. Roedd Europe Direct hefyd yn gallu rhoi gwybodaeth fuddiol iawn i'r ysgol ar ffurf mapiau a thaflenni er mwyn i'r myfyrwyr gael rhagor o ddefnyddiau dysgu.

Mae'r gweithdai hyn ar gael i ganolfannau sy'n ymwneud â'r cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae un o'r modiwlau sy'n ofynnol yn rhoi sylw i: Cymru, Ewrop a gweddill y Byd.

Mae Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster cyffrous i fyfyrwyr yng Nghymru sy'n ymestyn mewn modd newydd a gwerthfawr y cyrsiau sydd ar gael yn barod i fyfyrwyr 14 i 19 oed. Mae'n cyfuno sgiliau datblygu personol gyda chymwysterau sy'n bodoli'n barod fel y Safon Uwch, NVQ a TGAU, yn un dyfarniad ehangach y mae cyflogwyr a phrifysgolion yn ei werthfawrogi.

Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Fagloriaeth Cymru er mwyn gweddnewid dysgu ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru. Mae'n cynnig profiadau ehangach na rhaglenni dysgu traddodiadol, addas i anghenion amrywiol pobl ifanc. Mae modd astudio ar ei chyfer yn Gymraeg neu yn Saesneg, neu gyfuniad o'r ddwy iaith.

ASE yn ymweld â Cholegl Iâl Wrecsam

Ar Hydref 2il 2009 roedd Europe Direct yn bresennol mewn digwyddiad a drefnwyd gan y Ganolfan Adnoddau Addysg yng Ngholeg Iâl. Derek Vaughan yw un o'r Aelodau Seneddol Ewropeaidd dros Gymru a chafodd ef wahodd i roi anerchiad i fyfyrwyr rhyngwladol yn rhinwedd ei swydd fel ASE.

Fe wnaeth y myfyrwyr, o Asia ac Ewrop, ofyn cwestiynau heiriol am waith ASE. Cafodd Europe Direct nifer o ymholiadau gan fyfyrwyr a darlithwyr ynghylch ariannu prosiectau a theithio yn Ewrop.

Yn y llun dyma Derek Vaughan (yn y tu blaen) yn edrych ar gyhoeddiadau Ewrop gan Europe Direct.

Your MEPs

Dr Kay Swinburne, Y Blaid Geidwadol
Ffôn: 02920 616031
E-bost: kay.swinburne@europarl.europa.eu

Mrs Jill Evans, Plaid Cymru
Ffôn: 01443 441395
E-bost: jill.evans@europarl.europa.eu

Mr Derek Vaughan, Y Blaid Lafur
Ffôn: 02920 227660
E-bost: contact@derekvaughanmep.org.uk

Mr John Bufton UK, Y Blaid Annibynnol
Ffôn: 01597 811231
E-bost: johnbufton@tiscali.co.uk

Y Tu Hwnt i'r Argyfwng: Cynllun ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy

Trefnwyd y gynhadledd hon er mwyn iddi fod yn un o brif ddigwyddiadau Blwyddyn Creadigedd ac Arloesedd Ewrop yn 2009. Cynhaliwyd ym Mrwsel ar 23—24 Tachwedd 2009.

Amcanion y gynhadledd

- Meithrin dealltwriaeth o feddwl yn ddyluniadol, sy'n broses a sawl dimensiwn iddi, sy'n pontio'r bwlch rhwng creadigedd ac arloesedd, diwylliant a'r economi.
- Dweud yn union sut y gellir atgyfnerthu natur gystadleuol gynaliadwy Ewrop trwy feithrin sgiliau dylunio a chynyddu ymwybyddiaeth o ba mor bwysig yw meddwl yn ddyluniadol er mwyn arloesi'n llwyddiannus.

Blynyddoedd Ewropeaidd â Themâu

Bob blwyddyn bydd yr UE yn dewis thema ar gyfer ymgyrch sydd â'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth pobl a dwyn y mater hwn i sylw llywodraethau'r gwahanol wledydd. Caiff y themâu eu dewis sawl blwyddyn ymlaen llaw. Dyma enghraifft neu ddwy o'r blynyddoedd blaenorol: ieithoedd, mudoledd y gweithwyr, cyfle cyfartal i bawb a chyd-drafodaeth rhyngddiwylliannol.

Mae 2009 wedi ymwneud â Chreadigedd ac Arloesedd.

2010 fydd Blwyddyn Atal Tlodi a Dieithrwch Cymdeithasol yn Ewrop.

Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd wybodaeth am ddeunydd darllen arall ynghylch hyn.

Am ragor o wybodaeth ewch i www.ec.europa.eu

Gwasanaethau gwybodaeth a chymorth yr UE

Ceiswyr Gwaith, Mentrau a Busnesau

Yn y sefyllfa economaidd sydd ohoni mae llawer o bobl yn cael trafferth dod o hyd i swydd ac mae ar fusnesau angen yr holl gymorth y gallant ei gael. Dyma rai sefydliadau sy'n ceisio cynorthwyo pobl i sicrhau swyddi a rhoi cyngor i fusnesau.

Gwasanaethau Cyfeirio Dinasyddion (CSS)

Tîm o ymgynghorwyr cyfreithiol annibynnol yw CSS sy'n rhoi cyngor, am ddim, ynghylch yr hawliau sydd gennych yn yr UE.

Gallant roi cyngor ar bethau a fydd yn digwydd ichi pan ydych yn teithio, yn symud i Ewrop neu'n astudio yno.

Ewch I'w gwefan yn ec.europa.eu/citizensrights

Mae **Solvit** yn cynnig math tebyg o wasanaeth ac mae'r ddau ohonynt wedi'u hymgysylltu â'i gilydd. Fodd bynnag, mae Solvit yn tueddu i gynnig atebion i fentrau sydd â phroblemau croesffiniol.

Ewch i wefan solvit yn www.eu.europa.eu/solvit/



Rhwydwaith Menter Ewrop

Bwriad y sefydliad hwn yw cynorthwyo Busnesau Ewropeaidd, yn enwedig busnesau bach a chanolig (BBaCh). Maent yn darparu cyngor am ddim ynghylch amrywiaeth o wasanaethau cymorth busnes ac arloesi.

Ewch i'w gwefan yn www.enterprise-europe-network.ec.europa.eu

Eures - dyma sefydliad sydd â'r nod o ddarparu cyngor i geiswyr gwaith. Bydd yn rhoi help llaw gydag amrywiaeth eang o bethau fel gweithio dramor, gwasanaethau cyflogi, costau byw a dod o hyd i ysgol.

Ar ben hynny, mae eu Porth Symudoldeb Swyddi yn rhestru'r holl swyddi sydd ar gael yn Ewrop.

Maent hefyd yn cynorthwyo cyflogwyr sy'n dymuno penodi gweithwyr tramor.

Ewch i'w gwefan yn www.ec.europa.eu/eures

Mae Europe Direct yn gysyllbwynt lleol i'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd, ei bolisïau a'i gytuniadau, a materion Ewropeaidd. Ledled yr UE mae oddeutu 500 o ganolfannau Europe Direct. Er mwyn cael cyngor gallwch ffonio, anfon e-bost neu fynd draw i un ohonynt.

Ar ben hynny mae gan Europe Direct amrywiaeth o wybodaeth i fyfyrwyr.

Bydd gan nifer fawr ohonynt gyhoeddiadau buddiol a diddorol ac adnoddau am ddim i ysgolion, ac i bawb sydd â diddordeb mewn gwybodaeth ynghylch yr Undeb Ewropeaidd ac Ewrop.

Ewch i www.wrexham.gov.uk/europedirect, ffoniwch ni ar 01978 292090

Anfonwch e-bost atom yn: europedirect@wrexham.gov.uk

Pobl ifanc a myfyrwyr

Mae mwy a mwy o bobl ifanc yn dewis teithio ac astudio dramor. Mae'r rhwydweithiau gwybodaeth canlynol yn cynnig cyngor ynghylch pob un o'r materion sy'n ymwneud â chostau, teithio a chyfreithiau. Mae gwybodaeth i fyfyrwyr hefyd.

Europass – dyma sefydliad sy'n helpu pobl sy'n chwilio am swydd, pobl sy'n chwilio am addysg bellach a myfyrwyr hefyd, i ddangos pa sgiliau a chymwysterau sydd ganddynt – er mwyn iddynt allu cael eu cydnabod mewn gwledydd eraill.
Mae Europass hefyd wedi'i gysylltu â sefydliad o'r enw Naric sydd yntau'n ceisio rhoi cydnabyddiaeth i gymwysterau o wledydd ledled yr UE.

ECTARC (Y Ganolfan Ewropeaidd dros Gydlynu Hyfforddiant a Rhanbarthau).
Mae'r ganolfan hon yn Llangollen ac yno mae gwybodaeth am fyw a gweithio yn Ewrop, sut i wella'ch Saesneg a chael profiad gwaith yng Nghymru.

Maent yn enwog am y rhaglen gyfnewid o'r enw Leornado Da Vinci, sy'n cynnig lleoliadau i bobl ifanc sy'n gobeithio byw a gweithio dramor dros dro. Byddant yn trefnu teuluoedd croeso i bobl aros â hwy, ac maent wastad yn gwneud cais am deuluoedd croeso newydd yn enwedig felly mewn ardaloedd adeiledig fel Wrecsam.
Os oes gennych ddiddordeb, ewch i www.ectarc.com
Neu ffoniwch 01978 861514.

Mae **Erasmus** yn galluogi myfyrwyr, athrawon a sefydliadau mewn 31 gwlad yn Ewrop, i fynd i wlad arall am hyd at 3 i 12 mis, er mwyn astudio ar gyfer rhan o'u gradd.
Am ragor wybodaeth ewch i www.britishcouncil.org/erasmus

Siop Lyfrau'r UE

Ar 16 Hydref, fe wnaeth siop lyfrau'r UE lansio ei llyfrgell digidol, a bellach mae ei chasgliad ar-lein yn cynnwys pob dogfen a gyhoeddwyd gan yr UE ers 1952 – nifer aruthrol, 110,000 o gyhoeddiadau. Mae'r archifau wedi'u cynnwys bellach hefyd, felly mae'r llyfrgell ddigidol yn cynnwys cymaint â 12 miliwn o dudalennau wedi'u sganio mewn 50 iaith.
Un o'r dogfennau hynaf yn y llyfrgell yw araith, sy'n dyddio'n ôl i Fedi 1952, a roddwyd gan Jean Monnet – un o'r cymeriadau blaenllaw yn nyddiau cynnar integreiddio gwledydd Ewrop – gerbron y Cynulliad a ddaeth yn Senedd Ewrop yn ddiweddarach.
Cafodd y llyfrgell ddigidol ei chreu mewn ymateb i'r galw aruthrol sy'n bodoli am fersiynau digidol o gyhoeddiadau sydd allan o brint erbyn hyn.

Ewch i www.bookshop.europa.eu

Cyhoeddiadau ac adnoddau am ddim i ysgolion

Mae gan Europe Direct amrywiaeth eang o adnoddau a chyhoeddiadau am ddim mewn sawl iaith Ewropeaidd, ac yn Gymraeg hefyd ar gais. Maent yn ymdrin â dewis eang o faterion sy'n ymwneud ag Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd e.e. yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd, ehangu, Senedd Ewrop a sefydliadau ac iechyd. Maent ar gael i bawb ac maent yn rhad ac am ddim. Rydym yn croesawu ymholiadau oddi wrth ysgolion a cholegau. Mae adnoddau eraill ar gael hefyd fel mapiau o Ewrop yn ogystal â nifer o eitemau hyrwyddol .

I gael wybodaeth am ddim, anfonwch e-bost at Europe Direct yn:

europedirect@wrexham.gov.uk

i gael rhestr o'r cyhoeddiadau sydd ar gael a ffurflen archebu.

Mae croeso ichi gysylltu â ni ar y ffôn neu gydag e-bost.

Europe Direct
Llyfrgell Wrecsam
Ffordd Rhosddu
Wrecsam, LL11 1AU
Ffôn: 01978 292090
Ffacs: 01978 292611
E-bost: europedirect@wrexham.gov.uk
www.wrexham.gov.uk/europedirect